# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 188 (v6)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Adolygiad Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru o ddiwylliant a gwerthoedd - y camau nesaf

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymwysterau galwedigaethol

(30 munud)

## 5 Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024 - Gohiriwyd

(0 munud)

## 6 Dadl: Cyllideb Ddrafft 2024-2025

(120 munud)

**NDM8473** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 19 Rhagfyr 2023.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 yn methu â chyflawni blaenoriaethau pobl Cymru.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol]

## Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

**NNDM8481** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Cynnig body Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM8480 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, 6 Chwefror 2024.

## 7 Dadl: y Diwydiant Dur yng Nghymru

(60 munud)

**NNDM8480** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod dyfodol addawol i waith creu dur mewn ffwrneisiau chwyth yng Nghymru fel rhan o bontio teg sy'n cefnogi economi Gymreig gryfach ac sydd hefyd yn diogelu ased sy'n perthyn i'r DU.

2. Yn cefnogi'r achos dros drafodaethau pellach a fydd yn galluogi proses bontio hirach i ddiogelu swyddi er mwyn creu dyfodol uchelgeisiol a gwyrddach ar draws cyfleusterau Tata yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r £500 miliwn gan Lywodraeth y DU i sicrhau dyfodol y gwaith cynhyrchu dur ym Mhort Talbot.

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r gronfa bontio gwerth £100 miliwn gydag £80 miliwn gan Lywodraeth y DU ac £20 miliwn gan Tata Steel Ltd.

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu cyllid ar unwaith i gefnogi gweithwyr dur.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

(60 munud)

## 8 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

**NDM8475** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Gosodwyd y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 2 Hydref 2023;

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) gerbron y Senedd ar 26 Ionawr 2024.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

## 9 Y penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

**NDM8474** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024